CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES WELSH FOR ADULTS CENTRE

Grŵp Strategol / Strategy Group

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp ddydd Mercher, Ionawr 16 am 10.30yb yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy, Cei Conna

Presennol: Meri Huws (Prifysgol Bangor - Cadeirydd); Jim O'Rourke (Nant Gwrtheyrn); Richard Lewis (Coleg Garddwriaeth Cymru); Jina Gwyrfai (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo Cymru); Jackie Doodson (Coleg Llandrillo Cymru); Julie Brake (NEWI); Gwenan Owain (Coleg Llysfasi); Fred Cunningham (Coleg Llysfasi); Steve Smith (Coleg Iâl); Dr Haydn E. Edwards (Coleg Menai); Janice Lewis (Coleg Menai); Trefor Fôn Owen (Coleg Harlech WEA); Brec'hed Piette (Prifysgol Bangor); David B. Jones (Coleg Glannau Dyfrdwy); Ifor Gruffydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Iwan Davies (Ysgrifennydd)

Ymddiheuriadau: Verona Prichard Jones (Popeth Cymraeg); Elwyn Hughes (Prifysgol Bangor); Huw Evans (Coleg Llandrillo Cymru); Haydn Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Pam Evans-Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg)

Gweithredu

1. CROESO A RHAGARWEINIAD

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

2. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 HYDREF 2007

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2007 yn gywir.

3. MATERION YN CODI

3(a) Adroddodd IG unwaith bydd y Cynllun Gweithredol wedi ei gymeradwyo ***bydd y Ganolfan yn cyflwyno dogfen gryno unwaith y chwarter yn y cyfarfodydd yn amlinellu'r datblygiadau strategol a gweithredol.*** **IG**

4.Eglurwyd wrth y Grŵp bod y polisi dwys/darnynol wedi cael ei drafod yn y Panel Darparwyr a gofynnwyd i'r Grŵp gymeradwyo'r polisi gydag un gwelliant sef:

- troednodyn 1 – newid 'ar lefel uwch' i 'ar lefel canolradd ac uwch'.

Pwysleisiodd IG mai dyma fydd polisi creiddiol y Ganolfan ond bydd yna elfen o hyblygrwydd mewn achosion lle fo'r polisi yn creu anhawsterau ymarferol i ddarparwyr a/neu ddysgwyr.
Cafodd IG a MH gyfarfod efo Ann Jenkins, APADGOS i drafod y model ar gyfer Popeth Cymraeg, Coleg Glannau Dyfrdwy, Coleg Garddwriaeth Cymru a Choleg Llandrillo Cymru. Adroddwyd fod APADGOS wedi derbyn y model ar lafar a disgwylir ymateb swyddogol o fewn y mis.

4. CADARNHAU COFNODION Y PANEL DARPARWYR – MATERION YN CODI

Cadarnhawyd bod cofnodion y Panel Darparwyr yn gywir.

Materion yn codi:

- Yn achos y tiwtoriaid sy'n derbyn hyfforddiant gan y Ganolfan, bydd angen sicrhau bod hyn yn bwydo i mewn i ddatblygiad staff yr unigolion efo'r darparwyr.
- Tynnodd FC sylw at dendr adnoddau a dysgu, nid yw'r Ganolfan wedi derbyn unrhyw ohebiaeth swyddogol am hyn, ***bydd y Ganolfan yn ymgynghori gyda'r darparwyr.*** **IG**
- Mynegodd IG bod APADGOS yn edrych ar y posibilrwydd o greu cwricwlwm maes CiO newydd, yn ôl pob tebyg bydd Grŵp Tasg yn cael ei greu i ymchwilio i hyn a bwriada'r Ganolfan dendro am y gwaith hwn.

5. CADARNHAU COFNODION Y PANEL ANSAWDD – MATERION YN CODI

Cadarnhawyd bod cofnodion y Panel Ansawdd yn gywir.

Materion yn codi

- ***Mae angen amserlenni tiwtoriaid ar y Ganolfan ar fyrder er mwyn gallu trefnu arsylwi.*** **Darparwyr**
- ***Bydd angen i gopi drafft o'r AHA gael ei anfon at y darparwyr er mwyn ymgynghori.*** **HH**
- Mae HH yn y broses o ymweld â'r darparwyr i gyflwyno adborth a sylwadau ar yr arsylwi diweddar.

6. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

Cafwyd adroddiad gan IG a mynegodd:

<u>Cyflwyno data</u>
Eglurodd IG bwysigrwydd o dderbyn data yn gyflawn ac yn amserol a gofynnodd i ddarparwyr sicrhau fod cyfathrebu clir rhwng staff CiO a staff rheoli data. Bydd y Ganolfan yn derbyn adborth gan APADGOS ar y data a gyflwynwyd cyn y Nadolig, ac

addawyd hwnnw erbyn 25 Ionawr.

Cyfarfod hefo Ann Jenkins

Adroddodd IG fod MH ac yntau wedi cael cyfarfod gydag Ann Jenkins ar ddechrau'r mis lle trafodwyd agenda cyffredinol CiO APADGOS a phrif themâu rhanbarth y gogledd. O safbwynt adroddiad Webb, ***penderfynwyd y byddai'n fuddiol petai'r Ganolfan yn llunio crynodeb o oblygiadau argymhellion yr adroddiad i faes CiO, i'w hystyried erbyn y cyfarfod nesaf.*** **IG**

Adolygiad o ail-strwythuro CiO gan Old Bell 3

Adroddwyd bod Einir Burrowes wedi ymweld â'r Ganolfan yn ddiweddar a'i bod wedi cysylltu dros y ffôn â rhai o ddarparwyr y gogledd. ***Bydd adroddiad interim drafft yn cael ei lunio gan Old Bell 3 yn y gwanwyn a chytunwyd y dylid dosbarthu'r adroddiad hwnnw ymysg aelodau'r Grŵp fel bod modd ymateb iddo ar ran pob darparwr.*** **IG**

Cyrraedd targedau

Gofynnodd IG i bob darparwr adael iddo wybod a oeddynt yn hyderus o gyrraedd eu targedau a'i peidio. **Darparwyr**

Adroddodd fod y data a dderbyniwyd yn awgrymu ym mis Tachwedd 2007 fod darparwyr wedi cyflawni oddeutu 40% o'u hunedau ar gyfartaledd. Nododd IG fod perygl i unrhyw danberfformiad o dan y targed a osodwyd, gael effaith ar ddyraniad y rhanbarth gyfan yn y flwyddyn ddilynol, felly mae sicrhau bod targedau'n cael eu cyrraedd, neu hysbysu'r Ganolfan fod problem i gyrraedd targedau, a hynny mor fuan â phosibl, yn allweddol bwysig. Er mwyn medru cael data mwy dilys a chyflawn, ***penderfynwyd y byddai darparwyr yn anfon eu data cyflawn diweddaraf at y Ganolfan erbyn 21 Ionawr 2008***. **Darparwyr**

Byddai'r Ganolfan wedyn yn adrodd yn ôl i bob darparwr ar y sefyllfa. **IG**

Penderfynwyd hefyd y byddai darparwyr, o hyn ymlaen, yn anfon data at y Ganolfan yn fisol er mwyn i'r Ganolfan fedru monitro'r sefyllfa yn rhanbarthol (y Ganolfan i nodi pryd i'w gyflwyno a pha ddata yn union fydd ei angen). **Darparwyr ac IG**

Dysgu Anffurfiol

Mae'r Ganolfan wedi derbyn grant o £15k gan Fwrdd yr Iaith i benodi Cydlynydd Dysgu Anffurfiol, y gobaith yw penodi rhywun i ddechrau 1af Ebrill 2008.

Strategaeth Farchnata

Mae'r Ganolfan yn cydweithio efo Cwmni ATOM PR ***a bydd ymgynhoriad ar ddogfen ddrafft erbyn diwedd y mis hwn.*** **IG**

Cynllunio Darpariaeth

Nodwyd bod y Ganolfan eisiau sicrhau bod rhaglen darpariaeth 2008/2009 wedi ei chwblhau erbyn 4 Ebrill 2008. ***I hwyluso'r gwaith hwn bydd y Swyddogion Datblygu yn cynnal trafodaethau gyda darparwyr unigol dros yr wythnosau nesaf, gan ddechrau cyn gynted â phosibl.*** **JG a PEH**

Y Gweithle

(a) Amlinellwyd y cynlluniau sydd gan y Ganolfan i hyrwyddo hyfforddiant CiO yn y gweithle, yn y sector cyhoeddus yn benodol, a hynny'n rhannol trwy gydweithio gydag ymgynghorwyr Cynllunio Ieithyddol.

(b) ***Nodwyd hefyd y bydd y Ganolfan yn ymgynghori gyda darparwyr ar 'fodel' er mwyn rhannu darpariaeth y gweithle rhwng y darparwyr hynny sydd eisiau cynnig hyfforddiant yn y gweithle.*** Bwriedir cynnal yr ymgynghoriad yn ystod mis Chwefror er mwyn medru trafod yr adborth yng nghyfarfod nesaf y Grŵp. **IG**

7. RHEOLI ANSAWDD

Nid oedd unrhyw bwyntiau pellach i'w trafod yn dilyn eitem 5. Penderfynwyd trafod holl faterion Rheoli Ansawdd gyda chofnodion y Panel Ansawdd yn y dyfodol.

8. HYFFORDDIANT

Cyflwynodd IG adroddiad yn absenoldeb Haydn Hughes gan fanylu ar y materion canlynol:

- Mae'r Ganolfan yn gobeithio cynnig y cymhwyster cenedlaethol ym mis Medi 2008.
- Ni fyddwn yn talu ein tiwtoriaid am fynychu'r gynhadledd yn Llangollen, 8-9 Chwefror 2008, ond bydd y Ganolfan yn barod i dalu am lety lle fo'n rhesymol a chostau teithio.
- Mae holiaduron wedi eu hanfon at holl diwtoriaid y rhanbarth ar ran APADGOS. Gofynnir i bob tiwtor eu cwblhau a'u dychwelyd i'r Ganolfan i'w dadansoddi.
- Bydd ymgyrch recriwtio tiwtoriaid yn dechrau tua mis Mawrth/Ebrill 2008 a'r bwriad yw cynnig hyfforddiant iddynt yn ystod yr haf fel bod cronfa fwy o diwtoriaid rhan amser ar gael i ddarparwyr y rhanbarth.

9. DARPARIAETH

Cafwyd adroddiad gan JG gan fanylu ar y canlynol:

- ***Bydd cyfarfodydd ffurfiol rheoliadd bob 2 fis neu chwarterol yn cael eu cynnal efo'r darparwyr.*** **JG a PEH**
- Mynegodd bod angen cydlynu'r ddarpariaeth yn dynnach - amserlen Ebrill 2008, mae rhywfaint o ddyblygu wedi digwydd efo darpariaeth Ionawr 2008 a bydd rhaid osgoi hyn yn 2008/09. Prinder cyrsiau dwys yn sir Conwy, cyrsiau darnynol Mynediad (CBAC) yn Ninbych a Conwy a rhannau o sir y Fflint. Bydd angen rhesymoli cyrsiau uwch a datblygu cyrsiau hyfedredd. Angen ysytyried ardaloedd difreintiedig.
- Mae JG a PEH yn cynnig cyrsiau peilot i'r teulu – TWF yn ardaloedd Môn, Gwynedd, Conwy a Dinbych, y cwrs wedi ei achredu gan RhCA, yn Wrecsam a sir Ddinbych cynigir

cwrs mewn ysgolion cynradd.

- Fel rhan o'r gwaith o baratoi papur ymgynghorol ar rannu darpariaeth y Gweithle, bydd angen gwybod pa ddarparwyr sy'n dymuno darparu hyfforddiant mewn gweithleoedd. ***Gofynnir i ddarparwyr adael i'r Ganolfan wybod erbyn 18fed Ionawr 2008.*** **Darparwyr**
- ***Copi o adroddiad JG i'w ddosbarthu i'r darparwyr yn electroneg.*** **JG**

10. YMCHWIL FARCHNATA – CYFLWYNIAD AR GANFYDDIADAU BEAUFORT RESEARCH

Cafwyd cyflwyniad i'r ymchwil farchnata gan IG. Roedd y Ganolfan wedi cydweithio â Chanolfan y Canolbarth ar arolygon meintiol ac ansoddol, gyda sampl gymysg o tua 800 o bobl. Cododd nifer o ganfyddiadau pwysig a diddorol a fydd yn cael eu hymgorffori yng Nghynllun Strategol nesaf y Ganolfan sydd i'w gwblhau ym mis Mai 2008. Ar fater cyrsiau am ddim, mynegodd y Cadeirydd bod Gareth Jones, AC yn awyddus iawn i drafod costau cyrsiau CiO gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. ***Copi electroneg o'r cyflwyniad gan Beaufort Research i gael ei anfon at y darparwyr.*** **IG**

11. U.F.A.

Mynegodd FC bod nifer o ddadleuon efo ffioedd i bobl hŷn, ***eglurodd IG bod y Ganolfan yn disgwyl am ymateb cyfreithiol a byddwn yn rhannu'r wybodaeth gyda'r darparwyr.*** **IG**

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mercher, 9fed Ebrill 2008 am 10.30yb, Prifysgol Bangor